Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 26ain Mai, 2020 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Rhith-gyfarfod |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | **Eitem** | **Cyflwynir gan** | **Swyddog** | **Tud.** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COVID-19 : ADFER | | Dilwyn Williams | 3 - 7 |
| 6 | ARGYFWNG COVID-19 : SEFYLLFA'R ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | Cyng. Dafydd Meurig | Aled Davies | 8 - 15 |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod y Cabinet**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **26 Mai 2020** |
| **Adroddiad gan:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Covid-19 – Adfer** |

**Penderfyniad a geisir**

Comisiynu'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i ystyried y canlynol -

- Y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn nhermau yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yn y meysydd hynny y mae'r byrddau yn gyfrifol amdanynt, gan gadw golwg ar y cyfeiriad yr oedd y byrddau eisoes yn ei ystyried cyn i'r argyfwng godi;
- pa weithrediadau sydd angen eu cyflawni yn y meysydd hynny yn y tymor byr a'r tymor canolig.

ac i adrodd yn ol i'r Cabinet gydag argymhellion

Comisiynu'r Grwp Rheoli i ystyried pa faterion corfforaethol sydd angen ystyriaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig wrth i ni symud ymlaen at y "normal newydd" ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet os cyfyd yr angen am benderfyniad fel yn berthnasol.

**Cefndir**

1. Hyd yma, mae holl ymdrechion adrannau'r Cyngor wedi bod yn cael eu cyfeirio tuag at ymateb i'r argyfwng Covid-19.

2. Yr hyn a welwyd dros y bythefnos diwethaf yw bod y Llywodraeth yng Nghymru (ac yn fwy felly yn Lloegr) yn edrych at symud o'r ymateb i fod yn agor allan rhai gweithgareddau pellach.

3. Ar y 15fed Mai fe gyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ei gynllun ar gyfer gwneud hynny mewn dogfen " Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi : dal i drafod" ac eisoes mae yna elfen o lacio wedi bod.

4. Yn hytrach nag ymateb i'r sefyllfa mae angen i ni fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y rhaglen gan ddechrau paratoi ar gyfer sefyllfa o'r fath. Fel Cyngor fe ddylem fedru adnabod y camau allweddol sydd eu hangen yn yr amrywiol feysydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt a bod yn barod i weithredu ar hynny.

5. Mewn argyfwng arferol fel llifogydd neu ddamwain fawr, byddai'r ymateb i'r argyfwng yn dechrau dirwyn i ben a'r "adfer" yn cychwyn.

6. Byddai hynny yn arwain at greu Grwp Cydlynu Adferiad fyddai'n cynnwys yr holl asiantaethau fyddai a rol i chwarae yn yr adferiad hwnnw. Fel arfer, Prif Weithredwr neu uwch swyddog o'r awdurdod lle digwyddodd yr argyfwng fyddai'n cadeirio'r Grwp – yn bennaf gan mai ymateb technegol yn bennaf fyddai hynny.

7. Gyda'r argyfwng yma fodd bynnag, nid yw'n un sydd wedi ei gyfyngu i un awdurdod ac felly nid yw'r model yn ffitio cystal i'r amgylchiadau.

8. Ymddengys i mi hefyd y bydd yr ymateb i'r argyfwng yn parhau am amser maith gydag elfennau o "adfer" yn cynyddu wrth i amser fynd yn ei flaen.

9. I raddau felly cyfuniad o ymateb er mwyn cadw lledaeniad yr haint mor isel a phosibl a symud tuag at y "normal newydd" fydd hyn oll yn hytrach na chyflawni un project "adfer".

10. Bydd y newid yn y balans yma yn dechrau drwy i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y camau priodol y dylid eu hymgorffori ar lefel cenedlaethol. Bydd gan y Grwp Cydgordio Strategol Rhanbarthol rôl i chwarae hefyd gan y bydd yn creu Grwp Cydlynu Adferiad. Mae'r paratoadau ar gyfer hynny yn eu lle yn barod, gyda'r cyfarfod cyntaf yn digwydd ar 20 Mai, ac yn amlwg bydd angen i ni fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar weithgareddau'r Grwp hwnnw ( a chydymffurfio gydag unrhyw gyfarwyddyd a ddaw i law).

11. Yn y cyfamser felly, mae angen i ni ystyried sut orau i drefnu ein hunain i sefydlu'r anghenion perthnasol yng Ngwynedd wrth symud tuag at y "normal newydd".

**Trefniadau Mewnol**

12. Mae'r Cynllun Adfer generic a sefydliwyd yn rhagweld y bydd y Grwp Cydlynu Adferiad yn sefydlu cyfres o Is Grwpiau sef –
    - Is Grwp Adferiad Cymunedol
    - Is Grwp Adferiad Iechyd a Les
    - Is Grwp Busnes ac Economi
    - Is Grwp Amgylcheddol ac Isadeiledd

13. Ymddengys o drafodaethau cychwynnol na fydd y Grwp Cydlynu Adferiad yn cadw at hyn gan ddefnyddio cyrff sydd eisoes mewn bodolaeth er mwyn cydgordio'r adferiad.

14. Bu son am ddefnyddio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i gydgordio'r ymdrechion yn y maes busnes ac economi; y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gydgordio ymdrechion yn y maes iechyd a lles a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gydgordio ymdrechion yn y maes adferiad cymunedol.

15. Bydd yna fwy o wybodaeth am hyn ar gael ar lafar ar ôl i mi fod yn y cyfarfod cyntaf, ond mae o i weld yn gwneud synnwyr.

16. Mae natur yr hyn sydd wedi gorfod digwydd i ymateb i'r argyfwng yn golygu, yn fy marn i, nad mater technegol yw "adfer" yn y cyd-destun yma ac y bydd yna flaenoriaethu angen digwydd. Y Cabinet fydd yn gyfrifol am hynny.

17. Y cwestiwn wedyn yw sut mae modd llunio trefniadau i fedru bwydo'r ystyriaethau perthnasol sydd eu hangen er mwyn i'r Cabinet fedru eu hystyried.

18. Byddai modd i ni atgynhyrchu grwpiau fel y nodir yn 12 uchod fyddai'n cysgodi'r drefn ffurfiol rhanbarthol.

19. Opsiwn arall fyddai defnyddio'r Bwrdd Rhaglen Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i weithredu fel cyrff i ystyried yr hyn sydd angen ei gyflawni yn eu meysydd.

20. Mae'r ddau fwrdd yma rhyngddynt yn cyfarch y meysydd a nodir yng nghymal 12 uchod ond byddai angen bod yn glir beth yw'r briff ar eu cyfer. Mantais gwneud hyn yw y byddai modd ymgorffori rhai o'r syniadau yr oedd y byrddau eisoes yn gweithredu arnynt wrth symud i'r "normal newydd".

21. Aelodau'r Bwrdd Adfywio yw'r Cynghorwyr Dyfrig Siencyn (Cadeirydd), Gareth Griffith, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Thomas a Catrin Wager ynghyd a'r Penaethiaid Gwasanaeth cysylltiedig. Aelodau'r Bwrdd Cefnogi Pobl yw'r Cynghorwyr Dafydd Meurig (Cadeirydd), Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas a Cemlyn Williams ynghyd a'r Penaethiaid Gwasanaeth cysylltiedig a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

22. Anfantais hyn yw bod y byrddau yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau a'r perygl y gallasem weld colli ffocws a'r ystyriaeth manwl sydd ei angen ar rai meysydd pwysig e.e. economi a busnes. Mae'n debyg y byddai modd goresgyn hynny drwy gomisiynu tasgluoedd o swyddogion i adrodd i'r

byrddau ar feysydd unigol unwaith y byddai'r meysydd hynny wedi cael eu hadnabod.

23. Mae angen bod yn glir mai galluogi aelodau cabinet ac Uwch swyddogion i ddod at ei gilydd i roddi ystyriaeth i feysydd gwaith mewn manylder ac mewn dull cydlynol fydd pwrpas y Byrddau ac y bydd angen cyfeirio unrhyw benderfyniadau ffurfiol y byd eu hangen i'r Cabinet eu hystyried.

24. Un elfen na fyddai'n derbyn sylw yn y strwythur honno yw yr angen i gynllunio llywodraethiant y Cyngor; materion gweithlu; materion adnoddau ac adfer gwasanaethau wrth symud i'r "normal newydd".

25. Yn hynny o beth, awgrymaf fod y Grwp Rheoli (sef y Penaethiaid y cyfarwyddwr a minnau) yn ystyried y materion corfforaethol sydd angen sylw yn y meysydd hynny gan gyfeirio unrhyw flaenoriaethu neu benderfyniadau gwleidyddol sydd eu hangen i'r Cabinet eu hystyried.

**Argymhelliad**

26. Yng nghyd–destun symud ymlaen i'r "normal newydd" bod y Cabinet yn comisiynu'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i ystyried y canlynol -

    - Y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn nhermau yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yn y meysydd hynny y mae'r byrddau yn gyfrifol amdanynt, gan gadw golwg ar y cyfeiriad yr oedd y byrddau eisoes yn ei ystyried cyn i'r argyfwng godi;
    - pa weithrediadau sydd angen eu cyflawni yn y meysydd hynny yn y tymor byr a'r tymor canolig.

    ac i adrodd yn ol i'r Cabinet gydag argymhellion

27. Comisiynu'r Grwp Rheoli i ystyried pa faterion corfforaethol sydd angen ystyriaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig wrth i ni symud ymlaen at y "normal newydd" ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet os cyfyd yr angen am benderfyniad fel yn berthnasol.

---

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Yr hyn a amlygir yn yr adroddiad yw sefyllfa sydd mor sylweddol ac eang fel fod camau ymateb i argyfwng angen gweithredu mewn modd a graddfa tra gwahanol. Mae'r gyfundrefn a argymhellir ar gyfer adolygu ac adnabod y camau a gweithrediad fydd eu hangen yn cynnig fframwaith synhwyrol i ddechrau ar y gwaith o adnabod atebion a blaenoriaethau yn y Cyngor ac yn rhanbarthol. Mae'n cydnabod fod ardrawiad y sefyllfa yma yn mynd i fod yn dymor hir a phell gyrhaeddol i'r Cyngor a'i wasanaethau a hynny ar lefel strategol a gweithredol. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr hyn a gynigir.

**Pennaeth Cyllid**

Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod 19 Mai o'r Cabinet ynglŷn ag effaith sylweddol yr argyfwng Covid-19 ar gyllideb y Cyngor. Mae'n anochel bydd ymhlygiadau ariannol yn amrywio gyda gwahanol ddewisiadau, wrth i'r Cyngor barhau i ymateb i'r sefyllfa a chynllunio'r 'adferiad'.

Fel mae rhan 16 o'r adroddiad yma'n nodi, bydd yna flaenoriaethu angen digwydd, a'r Cabinet fydd yn gyfrifol am hynny. Fodd bynnag, credaf byddai'n resymegol ac ymarferol i rannu'r materion fydd angen sylw rhwng y Bwrdd Rhaglen Adfywio, y Bwrdd Cefnogi Pobl, a'r Grwp Rheoli, ac i'r 3 grŵp yna gyfeirio penderfyniadau ag ymhlygiadau ariannol sylweddol i'r Cabinet.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **26ain o Fai 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679003** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Argyfwng COVID-19:<br>Sefyllfa'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** |

### 1 CYFLWYNIAD

**1.1.** I agor ar nodyn cadarnhaol, credaf fod sefyllfa'r Adran o ran cynnal gwasanaethau (mae'r mwyafrif llethol yn wasanaethau Blaenoriaeth 1) yn well nag oeddem wedi ei ragweld hyd yn oed wythnos neu ddwy yn ôl. Nid yw hyn yn gyfystyr a bod popeth yn dawel ac nad oes pwysau ar wasanaethau'r Adran. Ond, fel y mae pethau yn sefyll ar hyn o bryd rydym yn hyderus bod yr unigolion mwyaf bregus yn derbyn gofal priodol.

**1.2.** Ar hyn o bryd tra bod pethau yn gyffredinol sefydlog, rydym yn ymladd tanau o amrywiol faint ar draws yr holl wasanaethau. Rydym hefyd yn cadw mewn cof y gallai y sefydlogrwydd yma ddiflanu yn sydyn iawn os oes cynnydd mewn achosion COVID-19 neu mwy o absenoldebau salwch ymysg staff.

**DIWEDDARIAD:**

### 2 CYFEIRIADAU WYTHNOSOL

**2.1** Mae’r nifer o gyfeiriadau am wasanaeth wythnosol wedi syrthio ers dechrau argyfwng COVID-19 ond wedi dangos cynnydd yn y bythefnos ddiwethaf. Bydd angen sicrhau ein bod yn cadw golwg ar allu ein gwasanaethau i barhau gyda threfniadau ymateb i’r argyfwng ynghyd a’r galw posib yn gysylltiedig â’r cyfeiriadau yma yng nghyd-destun capasiti’r gweithlu mewnol a darparwyr allanol.

### 3 CARTREFI PRESWYL

**3.1** Mae 3 o gartrefi preswyl (Pobl Hyn) y Cyngor wedi bod yn ymdrin gyda ‘outbreak’, sef Plas Pengwaith, Llys Cadfan a Phlas y Don ac mae rhai o’r cartrefi eraill wedi ymdrin ag un neu ddau o achosion. Fel y gellir dychmygu, mae un achos mewn cartref yn arwain at gryn newid i staff a thrigolion yn y ffordd mae gwasanaethau a gweithgareddau dydd i ddydd yn cael eu cynnal. Yn ychwanegol mae Cartref Y Frondeg (Anabledd Dysgu) wedi wynebu'r un sefyllfa. Staff a effeithiwyd yn bennaf yn y Frondeg. Mae ambell achos COVID

positif wedi codi mewn cartrefi preifat. Mae’r Adran, gyda chyfraniadau allweddol gan y Tîm Iechyd Galwedigaethol, y Tîm Iechyd a Diogelwch a thimau Nyrsys Cymunedol yn cefnogi a chefnogi'r cartrefi yma. Oherwydd yr argyfwng, nifer cyfyngedig o gartrefi sydd yn cymryd achosion o’r newydd. Pan mae achosion newydd yn cael eu cymryd, mae pob cartref yn dilyn canllawiau i ddiogelu'r unigolyn ac i leihau risgiau i drigolion presennol a staff. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd priodol o’r gyfundrefn profion.

## 4 GOFAL CARTREF

**4.1** Rhai wythnosau yn ôl fe ymgymerwyd â gwaith i flaenoriaethu'r achosion lle mae unigolion yn parhau i ddarparu cefnogaeth trwy wasanaethau uniongyrchol. Gyda rhai bellach yn cael gofal neu elfen o’u gofal gan deuluoedd, cyfeillion neu ddulliau amgen yn cynnwys gwirfoddolwyr cymunedol, offer arbenigol a.y.b., rydym wedi medru canolbwyntio adnoddau ar yr unigolion mwyaf bregus. Rydym hefyd wedi cyflogi staff ychwanegol i gynyddu capasiti mewnol ac yn trafod opsiynau i ddarparwyr allanol ehangu eu timau lleol ar sail dros dro. Mae gennym hefyd drefniant gyda darparwyr preifat i barhau i dalu ar drefniant ‘retainer’ pan fo unigolyn yn mynd i ysbyty neu yn cael cefnogaeth mewn dull amgen. Mae hyn wedi ein galluogi i gynnal gwasanaethau angenrheidiol er bod llawer o staff wedi bod yn absennol o’u gwaith. Mae hefyd yn drefniant sydd yn cynorthwyo i sicrhau cynaliadwyedd y farchnad o ran cwmnïau darparu gofal lleol.

**4.2** Mae’r gwasanaeth yma yn un sydd angen cadw golwg fanwl arno dros yr wythnosau nesaf. Tra mae’n gymharol sefydlog, mae rhestrau aros am ofal cartref yn parhau ac mae gennym elfen o bryder y bydd cynnydd yn y galw wrth i unigolion sydd wedi cael eu cefnogi gan deuluoedd neu gyfeillion ddod nol i’n sylw ynghyd ag unigolion sydd heb fod yn cael sylw meddygol amserol yn dod i sylw gwasanaethau gofal ar bwynt crisis,

## 5 TAI A CHEFNOGAETH

**5.1** Y gwasanaeth yn sefydlog ar hyn o bryd. Mae’r Gwasanaeth wedi gorfod ‘jyglo’ cryn dipyn ar y rotas staffio a defnyddio goramser i gynnal gwasanaethau. Pan fo achos positif wedi codi mewn gwasanaeth a ddarperir gan y 3ydd Sector neu ddarparwr allanol, mae trefniadau wedi eu gwneud i hunan ynysu'r unigolyn, cyd-drigolion a staff. Ymdrechir i wneud defnydd o staff cefnogol y Cyngor a staff darparwr eraill i gefnogi am gyfnod penodol. Mae'r maes yma yn cael ei ystyried yn risg uchel ac yn cael ei fonitro yn agos gan y Gwasanaeth.

## 6 GWASANAETH ANABLEDDAU DYSGU

**6.1** Ar ddechrau cyfnod yr argyfwng a cyn y ‘lockdown’ gwnaed llawer o waith i flaenoriaethu achosion a rhoi trefniadau gofal amgen yn eu lle os yn ymarferol, er rhyddhau capasiti i ganolbwyntio ar gynnal yr achosion mwyaf dwys. Gyda gwasanaethau canolfannau dydd wedi eu cau mae’r Adran wedi gwneud defnydd o’r staff a ryddhawyd i gefnogi unigolion ar sail 1:1. Gallaf gadarnhau bod y maes yma wedi bod ac yn parhau i fod yn heriol o ran cynnal gwasanaethau. Mae achlysuron wedi codi lle bu rhaid cael cymorth gan y Bwrdd Iechyd ac ehangu’r defnydd o staff asiantaeth. Mae'r argyfwng wedi amlygu ambell elfen sydd angen sylw o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal integredig ar lefel lleol. Mae ymdrechion eisoes ar y gweill i drafod yr elfennau yma gyda’r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill.

## 7 GWASANAETH IECHYD MEDDWL

**7.1** Fel ag yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu, bu i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl graffu eu achosion ar gychwyn cyfnod COVID-19 fel bod adnoddau ac ymdrech yn cael ei ganolbwyntio lle roedd ei wir angen. Mae gweithwyr y Tim a'r Gweithwyr Cefnogol yn cysylltu ag unigolion yn ddyddiol i sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael. Mae'r achosion yn cael eu adolygu'n wythnosol gyda cefnogaeth ychwanegol yn cael ei gynnig os y bydd angen.

**7.2** Yn ystod y cyfnod dechreuol bu i'r Bwrdd Iechyd wneud nifer o addasiadau gwasanaeth ar sail rhanbarthol a cafodd hyn effaith ar wasanaethau'r awdurdodau lleol. Mae rhai o'r newidiadau yma wedi eu gwyrdroi ac mae'r drafodaeth ranbarthol i geisio cydlynu gwaith yn well a chryfhau trefniadau cyfathrebu eisoes ar y gweill.

## 8 PPE

**8.1** Rhaid nodi bod y sefyllfa o ran argaeledd PPE wedi gwella o gymharu ac ychydig wythnosau yn ôl. Ceir darpariaeth rheolaidd gan y Llywodraeth ac oherwydd hynny ac ymdrechion y Cyngor ei hun i gaffael offer PPE ychwanegol, rydym yn fwy cyfforddus bellach ynghylch ein gallu i ymateb i anghenion darparwyr mewnol ac allanol ac i geisiadau brys. Wedi dweud hynny, rydym yn parhau'n bryderus nad yw'r offer rydym yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn ddigonol i gyfarch anghenion sector gofal y sir, gyda rhai eitemau'n ymddangos yn fwy prin o un wythnos i'r nesaf. Mae y drefn ddosbarthu yn gweithio ar sail 'fel bo angen', lle rydym yn monitro lefelau stoc a defnydd pob cartref neu ddarparwr ac yn ceisio eu cefnogi gyda'r offer sydd fwyaf ei hangen arnynt yr wythnos honno. Fodd bynnag, ar brydiau mae ambell bryder wedi codi fel mae gwasanaethau unigol yn gweld rhai offer yn prinhau ac mae nifer o ddarparwyr preifat yn nodi anawsterau i gaffael hyd yn oed yr offer y byddent yn eu ddefnyddio mewn sefyllfa arferol heb argyfwng.

**8.2** Rydym bellach yn gweld cynnydd graddol yn y galw am offer wrth i becynnau gofal sydd wedi bod wedi eu rhewi am gyfnod ailgychwyn, ac rydym yn rhagweld y bydd achosion o'r fath yn parhau dros y cyfnod nesaf. Dros y bythefnos diwethaf gwelwyd bod y galw am offer wedi cynyddu mewn rhai meysydd llai amlwg e.e. gofalwyr teuluol. Bydd angen sicrhau ein bod yn medru canfod a chynnal stoc offer digonol i ddiwallu y galw yma.

**8.3** Yn ystod cyfnod dechreuol yr argyfwng, roedd cryn ansicrwydd ynglŷn â'r canllawiau ar gyfer y defnydd o PPE yn rhannol oherwydd bod newidiadau cyson yn cael eu cyhoeddi. Roedd hyn yn un o'r ffactorau arweiniodd at achosion o negeseuon anghyson yn cael eu cyfleu mewn perthynas ag addasrwydd a safon PPE i staff llinell flaen. Erbyn hyn mae'r sefyllfa wedi gwella yn sylweddol yn rhannol oherwydd sefydlogrwydd yn yr arweiniad cenedlaethol ond hefyd oherwydd cydymdrech i gael negeseuon cyson i staff iechyd a gofal ar lefel lleol.

**8.4** Gellir hefyd cadarnhau bod trefniadau yn eu lle erbyn hyn ar gyfer darparu'r offer PPE arbenigol sydd ei angen mewn rhai sefyllfaoedd gofal. Mae'r achosion wedi eu hasesu

ac mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu’r offer ymhob achos yn cynnwys y rhai lle mae staff a gomisiynir gan y Cyngor sydd yn darparu’r gofal.

## 9 PROFION COVID-19

**9.1** Mae’r sefyllfa o ran profion staff a thrigolion yn parhau i wella ond rhai materion yn ymwneud gydag arafwch profi ambell achos a chael y canlyniadau yn ôl mewn modd cyson ac amserol yn dal yn her. Mae y drefn o brofi defnyddwyr yn gyffredinol a sicrhau bod canlyniadau yn cael eu dychwelyd i’r cyflogwr yn ogystafl a’r gweithiwr yn dal angen eu cryfhau. Mae canllawiau pellach wedi eu cyhoeddi gan y Llywodraeth yn y dyddiau diwethaf. Er bod ychydig o ddryswch wedi codi o’u cyhoeddiad, gyda cadarnhad pellach ar ambell elfen, fe ddylent arwain at gryfhau'r trefniadau ymhellach, yn enwedig o ran hwyluso profi trigolion a staff cartrefi preswyl.

**9.2** Bellach mae yn bosib trefnu i holl staff a/neu holl drigolion lleoliad gofal gael eu profi. Mae hyn yn hynod werthfawr wrth geisio strwythuro ymateb pan fo achosion neu achosion posib yn codi. Un nodyn o bryder am sefyllfa ehangach yr argyfwng ydi ein bod eisoes wedi gweld enghraifft o leoliad lle cafodd nifer o staff (cwbl asymptomatig) eu profi a lle mae nifer ohonynt wedi cael canlyniad +ive. Mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol am bresenoldeb a lledaeniad COVID-19 o fewn ein cymunedau ac yn sgil hynny'r math o ymateb byddai ei angen pan fydd cyfyngiadau ‘lockdown’ yn cael eu codi.

**9.3** Mae'r trefniadau erbyn hyn yn cynnwys profi unigolion cyn iddynt ddychwelyd i leoliad gofal neu dderbyn gofal yn y gymuned. Mae hyn yn drefniant i’w groesawu ac yn gymorth i ddiogelu eraill e.e. trigolion mewn cartrefi preswyl ac oherwydd bod profi unigolion yn y gymuned wedi bod yn broblematig hyd yma. Mae’r Adran a’r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio i geisio canfod datrysiadau priodol pan fo achosion o’r fath yn codi.

## 10 BYLCHAU STAFFIO

**10.1** Mae lefelau absenoldeb yn parhau yn uchel yn ambell i wasanaeth o fewn yr Adran. Mae yn ymddangos yn uwch mewn rhai gwasanaethau ac yn bendant wedi bod yn gyson uwch yn y sector fewnol o gymharu â darparwyr allannol ers dechrau'r argyfwng. Mae hyn wedi creu ambell her dros yr wythnosau diwethaf. Dylid nodi bod y gwelliannau a welwyd o ran trefniadau ar gyfer cynnal profion ac argaeledd PPE wedi helpu’r sefyllfa rhywfaint dros y bythefnos ddiwethaf.

**10.2** Mae'r rhagolygon a’r gwaith modelu diweddaraf yn awgrymu y bydd angen i ni gynllunio ar gyfer lefelau absenoldeb staff o tua 15% oherwydd effaith ac oblygiadau COVID-19 am gyfnod o rhai misoedd. Bydd hyn yn debygol o olygu cynnydd yn y pwysau fydd ar staff mewnol ac allanol. Nid yw hynny yn gynaliadwy am gyfnod estynedig ac mae risg o ‘burn-out’ gyda staff heb gael fawr ddim o amser i ffwrdd ers deufis. Gall hyn fod yn ffactor fel y byddwn yn ceisio cynnal gwasanaethau dros fisoedd yr haf ac i mewn i’r Hydref.

**10.3** Mae gwaith ar y gweill i geisio adnabod ac ail-hyfforddi staff mewnol ynghyd a recriwtio a hyfforddi yn allanol fel y bydd gennym staff yn barod ar gyfer rôl fel gweithwyr achlysurol yn y maes gofal pe bydd eu hangen. Os ydi rhagolygon y gwaith modelu yn gywir, gallai'r niferoedd staff sydd eu hangen i ymdrin gydag achosion newydd, achosion COVID gaiff eu rhyddhau o'r ysbytai a delio gyda'r rhestr aros am ofal cartref olygu y byddai angen nifer uchel iawn o staff dros dro i ymateb i'r galw. Mae'r gwaith yma yn ystyried yr angen ar gyfer y ddarpariaeth fewnol ac allanol. Mae gwaith pellach ar y gweill gydag un neu ddau o ddarparwyr allanol i sefydlu timau dros dro ychwanegol i gefnogi'r gwaith ac i helpu ymateb i'r 'surge' tebygol.

**10.4** Byddwn yn cadw golwg fanwl ar y gwir effaith a'i gymharu gyda'r rhagolygon fel y gallwn ragbaratoi yn effeithiol ar gyfer ymateb i'r cynnydd yn y galw.

**10.5** Mae rhai achosion penodol o fylchau staffio wedi creu cryn her i wasanaethau'r Adran. Bu rhaid cael cymorth gan y Bwrdd Iechyd a gweithwyr asiantaeth i lenwi rota a chael arbenigedd i gynorthwyo yn Y Frondeg a hynny yn ychwanegol i staff a drosglwyddwyd o wasanaethau eraill yr Adran. Ar un cyfnod roedd 28 allan o 30 o staff y Cartref yn absennol.

**10.6** Hoffwn dynnu sylw'r Cabinet at agwedd iach, cyfrifol a chydwybodol staff yr Adran a staff o adrannau eraill sydd wedi ein cynorthwyo mewn cyfnod o bwysau sylweddol. Gallwn ond deimlo'n ostyngedig wrth ystyried cyfraniad ymroddedig y staff gofal ar y llinell flaen yn y cartrefi preswyl ac yn y gwasanaeth gofal cartref. Mae'r un peth yn wir o ran staff rhai o'n partneriaid allweddol ac ein darparwyr allanol. Rydym wedi canfod ambell seren, gyda rhai ohonynt yn gadael eu dyletswyddau arferol ac yn camu mewn i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau gofal uniongyrchol i unigolion bregus.

**10.7** Mae gennym elfen o bryder o'u gorweithio rhai ohonynt ac mae ystyriaeth gyson yn cael ei roi i'w iechyd a lles yn enwedig gan fod yr argyfwng yn mynd i fod hefo ni am gyfnod estynedig.

**10.8** Dylid hefyd nodi bod risgiau yn codi o orfod symud staff o wasanaethau eraill i lenwi bylchau. Mae'r sefyllfa yma sydd yn ymwneud yn bennaf a chynnal a pharhad y gwasanaethau hynny yn cael eu monitro. Mae hyn hefyd yn wir os y bydd gofyn i symud staff o ardal i ardal i ymateb i'r galw.

## 11 MATERION DIOGELU

**11.1** Nid oes twf i'w weld o ran niferoedd cyfeiriadau diogelu oedolion ar gyfer Gwynedd ar gyfer y ddau fis diwethaf o gymharu gyda'r un cyfnod yn 2019. Fodd bynnag, gall fod elfen o achosion cudd yn bodoli yma gan fod rhannau o'r gwasanaeth arferol ychydig ymhellach oddi wrth drigolion nag y byddent dan amgylchiadau arferol. Mae hyn hefyd yn wir am wasanaethau eraill y Cyngor ac wrth gwrs mae polisïau cenedlaethol megis hunan-ynysu ac ymbellhau cymdeithasol hefyd yn ddylanwadol. Mae'r ymdrech i sicrhau pob pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yn parhau a bydd angen cadw golwg fanwl ar achosion fel y bydd elfen o normaliaeth yn dod 'nôl i fywydau pobl.

**11.2** Roedd rhai o'r cyfeiriadau yn Ebrill yn ymwneud yn benodol a materion COVID-19 a throsglwyddiadau o wasanaethau iechyd. Mae'r Adran yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i wella trefniadau a lleihau posibilrwydd o drosglwyddiadau anniogel.

## 12 COSTAU YCHWANEGOL AR DDARPARWYR A GWASANAETHAU MEWNOL

**12.1** Mae darparwyr gofal preswyl a gofal dibreswyl yn wynebu costau ychwanegol yn sgil yr argyfwng COVID -19. Eisoes gwnaed trefniadau mewnol gan y Cyngor i geisio ysgafnhau'r baich ar ddarparwyr a chynnig cymorth lle mae hynny yn bosib. Mae gwaith wedi ei wneud i gasglu gwybodaeth i dystiolaethu gwariant ychwanegol ar staffio ychwanegol, offer arbenigol, 'retainers' am achosion sydd yn stopio dros dro, PPE gan ddarparwyr. Mae effaith COVID-19 ar welyau gwag hefyd yn ffactor. Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi arian penodol ar gyfer cynorthwyo'r sector (mewnol ac allanol) ac rydym wedi hysbysu darparwyr o fanylion y cymorth sydd ar gael. Mae'r gwaith o drefnu taliadau eisoes ar y gweill.

## 13 GOFYNION A DATA GWYBODAETH

**13.1** Y gofyn o wahanol gyfeiriadau ar wasanaethau dan bwysau i ddarparu gwybodaeth wedi bod yn drwm. Rhai o'r ceisiadau yn ein cyrraedd heb fawr o eglurder ynglŷn â phwrpas na defnydd y gwaith. Tipyn o ymdrech wedi ei roi i geisio cyfuno trefniadau lle mae gofyn am yr un wybodaeth o fwy nag un cyfeiriad.

## 14 LLEOLIADAU 'STEP DOWN' O DRINIAETH COVID-19

**14.1** Efallai bod angen lleoliadau ac unedau penodol ar gyfer camau olaf yn y broses gwella o driniaeth COVID -19 e.e. elfen o ail-alluogi cyn dychwelyd adref ac ar gyfer y cynnydd yn y galw am gefnogaeth gofal a ragwelir dros y misoedd nesaf. Gwaith wedi ei wneud i fodelu'r anghenion yn cynnwys canoli unigolion sydd angen gofal cartref i un safle er hwyluso'r gallu a'r capasiti sydd gennym i fynd ymhellach. Y sefyllfa yn un 'fyw' gydag angen i addasu rhagolygon yn aml fel y daw gwybodaeth newydd i'n sylw.

**14.2** Buddsoddiad dechreuol yn cael ei wneud mewn tri o gartrefi preswyl y Cyngor i sefydlu darpariaeth ddechreuol ond rhagwelir y bydd angen ehangu ar hyn os yw'r rhagolygon modelu yn gywir.

## 15 LLES STAFF

**15.1** Mae yn anodd cynnig darlun manwl o sefyllfa lles staff yr Adran yn y cyd-destun presennol. Mae canran sylweddol ohonynt dan gryn bwysau ac yn gweithio oriau hir iawn. Gydag absenoldebau staff eraill rydym yn gofyn llawer iawn o bwll llawer llai na'r arfer o staff sydd yn gweithio ar y llinell flaen ac yn y swyddfeydd/adref. Mae'r Tîm Rheoli Adrannol y ceisio cadw golwg ar y sefyllfa ac mewn ambell achos rydym wedi gorfodi staff i gymryd diwrnod o seibiant er eu lles eu hunain.

**15.2** Gyda chymorth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol mae gwaith yn cael ei wneud i gefnogi staff a bydd angen parhau i fuddsoddi yn ddigonol yn hyn am gyfnod estynedig wedi'r argyfwng. Bydd angen rhoi sylw penodol i staff y cartrefi preswyl hynny sydd wedi wynebu sefyllfa 'outbreak' a niferoedd uchel o farwolaethau yn sgil hynny.

## 16 CYNLLUNIO YMLAEN

**16.1** Yng nghanol yr argyfwng, mae'r Adran hefyd yn ceisio codi ein pennau ac edrych ymlaen tuag at y cyfnod y tu hwnt i COVID-19. Rydym yn parhau i geisio sicrhau y byddwn yn barod i symud gyda cynlluniau buddsoddi ar gyfer datblygu adnoddau a threfniadau gwaith newydd yn enwedig y buddsoddiadau trwy Gronfa ICF a Chynllun Asedau y Cyngor.

**16.2** Mae'n anorfod bod llawer o'r gwaith datblygol oedd ar y gweill wedi cael ei oedi. Mae y staff oedd yn gweithio ar y cynlluniau wedi eu dargyfeirio i gefnogi gwaith rheng flaen a chynlluniau ymateb eraill yn y maes gofal. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith datblygol a thrawsffurfiol wedi ei anghofio. Er bod y broses dendro wedi ei gohirio oherwydd sefyllfa COVID-19, mae cyfleon wedi codi yn ddiweddar i ail-gydio yn y cynlluniau i symud tuag at fodel darparu gofal cartref newydd.

**16.3** Un her fydd yn bendant angen ei rheoli dros y misoedd nesaf fydd rheoli disgwyliadau unigolion, teuluoedd ac o bosib darparwyr fel y byddwn yn raddol dod allan o drefniadau 'lockdown'. Fydd pethau ddim fel y bu nhw yn dilyn yr argyfwng ac fe fydd dadwneud rhai o'r newidiadau yn gorfod digwydd yn raddol iawn dros gyfnod estynedig. Bydd sut y byddwn yn siapio ac ymdrin gyda gwasanaethau dydd yn engrhaifft amlwg o hyn. Bydd pob cam yn gorfod cael ei ystyried yn ofalus er sicrhau lles a diogelwch yr unigolion sydd yn cael eu cefnogi. Rydym eisoes yn rhagweld y bydd y costau yn ymwneud a parhau rhai gwasanaethau a'u newid yn raddol yn anorfod.

**16.4** Rydym hefyd yn effro i'r ffaith bod rhai o'r trefniadau gwaith newydd a'r potensial, efallai gyda man addasiadau, i fod yn well na beth oedd yn eu lle yn flaenorol ac fe fydd angen ceisio dwyn perswad arv rai o'n darparwyr a phartneriaid na ddylid mynd nol i'r hen drefniadau. Rydym hefyd yn ceisio gwthio rhai addasiadau pellach all fod yn fuddiol yn yr ymateb i COVID-19 yn y tymor byr ond a fydd hefyd yn gwella'r gwead rhwng ein gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

**16.5** Mae staff yr Adran wedi addasu yn dda iawn i'r angen i weithio o adref a defnyddio technoleg i gynnal gyfarfodydd, asesiadau a.y.b. Credir bod hyn yn brawf y gellir darparu a chynnal gwasanaethau gofal trwy ddulliau amgen ac o bosib mwy effeithlon yn y dyfodol.

**16.6** Mae yr argyfwng hefyd wedi miniogi ein meddyliau ynglyn a trefniadau ac anghenion hyfforddi ein gweithlu ar gyfer y dyfodol fel y gallwn fod yn fwy hyblyg o ran darparu Gwasanaethau dydd i ddydd ac wrth gwrs o ran ymateb i argyfwng.

**16.7** Tra mae ein ffocws dyddiol ar gynnal gwasanaethau addas a diogel i drigolion bregus y Sir yn ystod cyfnod yr argyfwng COVID-19, rydym hefyd fel Adran wedi dysgu llawer o'r argyfwng a'n gobaith yw defnyddio'r wybodaeth newydd yma i siapio gwasanaethau gofal oedolion gwell ar gyfer Gwynedd y dyfodol.

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwy’n cefnogi yr adroddiad yma i’r Cabinet. Drwy ddarparu y wybodaeth am statws y Gwasanaeth, eu hymateb i’r argyfwng a ffactorau risg mae’n caniatáu i’r Cabinet gael trosolwg pwysig a chyfredol.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae ymhlygiadau ariannol argyfwng Covid-19 ar sefyllfa'r Adran Oedolion eisoes wedi’i gynnwys yn yr adroddiad ‘Effaith Covid-19 ar Gyllideb 2020/21’ cyflwynwyd i gyfarfod Cabinet 19 Mai. Cyflwynir unrhyw sylwadau pellach, fel bo angen, yng nghyfarfod Cabinet 26 Mai.